TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4TH,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

22 Rhagfyr 2022

Annwyl Jac

**Deiseb P-06-1288 Byddai agor Gorsaf Gerdded ym Magwyr a Gwndy, sy'n rhan o Raglen Gyflenwi yr Arglwydd Burns, yn llwyddiant cyflym**

Ar hyn o bryd, mae Trafnidiaeth Cymru yn bwrw ymlaen â'r gwaith o ddatblygu cynigion ar gyfer gorsaf Magwyr o dan ei raglen Prif Linell De Cymru (SWML) Prif Linell De Cymru | Trafnidiaeth Cymru (trc.cymru) fel un o bum gorsaf a argymhellir gan Gomisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru 'Burns'. Sicrhawyd cyllid datblygu gan Trafnidiaeth Cymru drwy Adolygiad Cysylltedd Undeb yr Adran Drafnidiaeth i symud y cynlluniau ar gyfer y gorsafoedd ymlaen i'r cam dewis opsiynau. Yn ogystal, paratoi rhagolygon galw diweddaraf ac achos busnes amlinellol ar gyfer y gorsafoedd arfaethedig, gwasanaethau rheilffordd a seilwaith cysylltiedig. Disgwylir i'r gwaith gael ei gwblhau yng Ngwanwyn 2023.

Yn achos Magwyr mae datblygiad parhaus dyluniad yr orsaf wedi nodi nifer o faterion, a fydd yn effeithio ar gwmpas a chost y cynigion ers iddynt gael eu datblygu ar gyfer Cyngor Sir Fynwy, yn eu mysg:

- Llwybr wedi'i drydanu ers i'r cynllun gwreiddiol gael ei ddatblygu - Changed fire safety requirements
- Newid gofynion diogelwch tân
- Mae angen sleidiau trac er mwyn sicrhau bod rhyngwynebau'r platfform yn cydymffurfio
- Cydymffurfio â gofynion hygyrchedd
- Rhyngwyneb safle SoDdGA Gwastadeddau Gwent ar gyfer adeiladu

Bydd y gwaith datblygu hefyd yn cynnwys cynnal adolygiad adeiledd er mwyn dod o hyd i'r ffordd orau o wneud y gwaith yn y gorsafoedd ac ystyried cyfyngiadau rheilffordd weithredol ar yr un pryd.

Mae Trafnidiaeth Cymru yn eiddo i Lywodraeth Cymru
Transport for Wales is owned by the Welsh Government

Cwmni Cyfyngedig drwy Warrant. Cofrestrwyd yng Nghymru. Rhif Cwmni 09476013. Cyfeiriad Swyddfa Gofrestredig: 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH
A Company Limited by Guarantee. Registered in Wales. Company No. 09476013. Registered Office Address: 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH


TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4TH,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

Bydd y gwaith hwn yn helpu i gadarnhau bod cynigion Gorsaf Magwyr yn bodloni gofynion teithwyr a gofynion gweithredol, yn cydymffurfio â safonau perthnasol y diwydiant rheilffyrdd a bod modd mynd ati i wneud y gwaith adeiladu ac yn dderbyniol ar y cyfan i Network Rail, sef perchennog yr ased yn y pen draw. Bydd hefyd yn sefydlu cymorth gweithredwyr trenau, y cynnig ar gyfer y gwasanaeth ac achos busnes ategol. Unwaith y bydd yr holl elfennau hyn wedi'u sefydlu, gellir nodi'r amserlen gorau posibl ar gyfer ei gyflawni fel rhan o'r rhaglen gyffredinol a gwaith cysylltiedig Network Rail ar Brif Linell De Cymru a bwrw ymlaen â'r gwaith cyn belled â bod modd sicrhau cyllid pellach i ddatblygu'r dyluniad, ymgysylltu â'r cyhoedd, caniatâd a gweithredu.

Cofion cynnes,



James Price
Prif Weithredwr / Chief Executive